# Galwadau Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026

RCSLT WALES CYMRU

**Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac iaith (RCSLT) yw'r corff proffesiynol ar gyfer therapyddion lleferydd ac iaith, myfyrwyr therapi lleferydd ac iaith a gweithwyr cymorth sy'n gweithio yn y DU. Mae gan y Coleg dros 22,000 o aelodau yn y DU (750 yng Nghymru) sy'n cynrychioli tua 95% o'r Therapyddion Lleferydd ac Iaith sy'n gweithio yn y DU (sydd wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal). Rydym yn hyrwyddo rhagoriaeth mewn ymarfer ac yn dylanwadu ar bolisïau iechyd, addysg, gofal a chyfiawnder.**

Mae Therapyddion Lleferydd ac Iaith a Chynorthwywyr Therapi Lleferydd ac Iaith yn darparu triniaeth, cefnogaeth a gofal sy'n gwella bywydau i blant ac oedolion sy'n cael anawsterau gyda'u lleferydd, iaith a chyfathrebu, bwyta, yfed a/neu lyncu.


Cyn etholiadau'r Senedd yn 2026, mae RCSLT Cymru wedi nodi pedwar cam gweithredu y mae'n rhaid i'r pleidiau gwleidyddol eu cymryd i sicrhau gwell bywydau i bobl ag anghenion cyfathrebu a/neu lyncu a'u teuluoedd.

## 1. Sicrhau gwell bywydau i bobl ag anghenion cyfathrebu a llyncu drwy fuddsoddi yn y gweithlu therapi lleferydd ac iaith.

**Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod prinder Therapyddion Lleferydd ac Iaith yng Nghymru.[1]**


Fel y dangosodd ein hadroddiad diweddar ar Gyflwr y Genedl[2], mae'r galw am therapi lleferydd ac iaith wedi cynyddu'n sylweddol dros y degawd diwethaf i blant ac oedolion, gan gynnwys y rhai ag anawsterau dysgu. Mae newidiadau yn y boblogaeth a rhagfynegiadau o ran anghenion yn golygu y bydd y twf hwn yn y galw yn parhau.

Mae galwadau ar Therapyddion Lleferydd ac Iaith i ehangu i feysydd lle mae anghenion sylweddol heb eu bodloni, fel iechyd meddwl, cyfiawnder a gofal dwys.





**Mae nifer cyfartalog y plant a'r bobl ifanc ar restrau aros wedi cynyddu 31% ers Ebrill 2019.**


*[1]Prif Weinidog Cymru (2024). Cwestiynau i'r Prif Weinidog, Cyfarfod Llawn, Cofnod Trafodion y Senedd 8 Hydref 2024. https://cofnod.senedd.cymru/Plenary/14139 [2]RCSLT Cymru (2025). Adroddiad Cyflwr y Genedl - y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru. www.rcslt.org/wp-content/uploads/2025/01/RCSLT-Wales-State-of-the-Nation-report_Welsh-version-January-2025.pdf. [3]Stats Cymru. Data sy'n deillio o: Amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a Therapi yn ôl wythnosau o aros, bwrdd iechyd, safle ysbyty a grŵp oedran, o fis Hydref 2009 ymlaen (adolygwyd Awst 2024).*




**Mae nifer cyfartalog yr oedolion ar restrau aros wedi cynyddu 37% ers Ebrill 2019.**




**Mae nifer cyfartalog y bobl ar restrau aros anableddau dysgu wedi cynyddu 43% ers Ebrill 2019.[3]**




**Mae gan 35% o blant Cymru ag Anghenion Dysgu Ychwanegol anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yw'r math mwyaf cyffredin o anghenion dysgu yng Nghymru. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu 17% ers 2022.[4]**

Er gwaethaf y cynnydd yn y galw, dim ond **808** o Therapyddion Lleferydd ac Iaith sy'n gweithio yn GIG Cymru (**649** cyfwerth ag amser llawn)[5] ac rydym ond yn hyfforddi **55** y flwyddyn. Mae data a gyhoeddwyd gan Stats Cymru yn dangos nad yw therapi lleferydd ac iaith yn cadw i fyny â thwf y gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd eraill.[6] Nid ydym ychwaith yn cadw i fyny â datblygiadau dros y ffin yn Lloegr lle mae ein data aelodaeth yn dangos bod nifer y therapyddion lleferydd ac iaith wedi **dyblu** yn ystod y degawd diwethaf.

**Mae RCSLT Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i gynyddu lleoedd hyfforddi therapi lleferydd ac iaith yn flynyddol a sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith i ateb y galw cynyddol.**


## 2. Ehangu mynediad i'r proffesiwn.

Ar hyn o bryd yng Nghymru, comisiynir dau gwrs, tair blynedd, llawn amser, cyn-gofrestru ar gyfer therapi lleferydd ac iaith ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Wrecsam. Nid oes cyrsiau ôl-raddedig rhan-amser na dwy flynedd ar gael, na llwybrau mwy hygyrch i ddysgu fel cynlluniau ennill cyflog wrth ddysgu na chynlluniau prentisiaeth fel sydd i'w cael mewn rhannau eraill o'r DU.

Rydym yn ymwybodol iawn bod y diffyg llwybrau eraill sydd ar gael i'r proffesiwn y tu hwnt i'r cwrs israddedig llawn amser yn effeithio ar amrywiaeth y proffesiwn a'r gallu i ddiwallu anghenion y boblogaeth. Mae'r llwybrau cyfyngedig i'r proffesiwn hefyd yn rhwystro gallu byrddau iechyd lleol i dyfu eu gweithlu eu hunain.

Yn ystod haf 2024, gwnaethom gynnal arolwg gyda chynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith ledled Cymru i ddeall graddau'r diddordeb mewn hyfforddiant i fod yn therapydd lleferydd ac iaith cofrestredig a barn ar y llwybrau cyfredol i'r proffesiwn.


[4]*Stats Cymru (2024). Cyfrifiad ysgol blynyddol ar lefel disgybl. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Special-Educational-Needs.* [5]*Stats Cymru (2024). Staff GIG Cymru: Staff anfeddygol eraill, yn ôl math o swydd a maes gwaith statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Staff/Non-Medical-Staff.* [6]*Ibid.*




**Byddai 47% o'r cynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith yn ystyried hyfforddiant fel therapydd lleferydd ac iaith.**




**Byddai 98% o gynorthwywyr a fyddai'n ystyried hyfforddi fel therapydd lleferydd ac iaith yn bwriadu gweithio yng Nghymru unwaith y byddant wedi cymhwyso.**




**Dywedodd 95% o'r cynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith oedd â diddordeb mewn hyfforddiant i fod yn therapydd lleferydd ac iaith mai'r dewis gorau iddyn nhw o ran cwblhau hyfforddiant fyddai drwy brentisiaeth neu fodel 'ennill wrth i chi ddysgu' – opsiwn nad yw ar gael ar hyn o bryd.**

**Mae RCSLT Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i ehangu mynediad i'r proffesiwn therapi lleferydd ac iaith drwy lwybrau fel prentisiaethau gradd.**


## 3. Cynllunio'r gweithlu.

Cadarnhaodd ein hadroddiad diweddar ar Gyflwr y Genedl[7] bryderon ynghylch diffyg data ar gyfansoddiad y proffesiwn therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru o ran cymhwysedd yn y Gymraeg, cefndir ethnig, oedran a lleoliad gwaith therapyddion a chynorthwywyr. Mae hyn yn effeithio'n sylweddol ar allu'r proffesiwn i sicrhau ein bod yn cynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Yn ogystal â gwell data, mae angen i ni hefyd wella proses cynllunio'r gweithlu ar frys ar gyfer y gweithlu therapi lleferydd ac iaith. Rydym yn deall pwysigrwydd ffigurau Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) gan fyrddau iechyd lleol i'r broses ar gyfer pennu niferoedd comisiynu ar gyfer y proffesiynau ond o ystyried y prosesau cynllunio a'r gofyniad i weithio oddi mewn i'r cyllidebau cyfredol, rydym yn pryderu nad yw'r ffigurau hyn yn ystyried anghenion gweithlu'r proffesiwn yn y dyfodol yn llawn ac yn enwedig realiti'r sefyllfa lle mae llawer o waith therapi lleferydd ac iaith yn ymestyn ar draws sectorau gan gynnwys addysg, gwasanaethau cymdeithasol a chyfiawnder. Rhennir y pryderon hyn gan ein cydweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd.

**Mae RCSLT Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i gyflwyno strategaeth gweithlu cenedlaethol gynhwysfawr ar gyfer therapyddion lleferydd ac iaith a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd eraill yng Nghymru.**

# 4. Therapyddion lleferydd ac iaith mewn timau Cyfiawnder Ieuenctid.




**71% o blant a ddedfrydwyd yn y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr (Ebrill 19 - Mawrth 20) anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.**

Mae tystiolaeth ryngwladol gref bod anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn llawer mwy cyffredin yn y boblogaeth droseddol nag yn y boblogaeth gyffredinol. Datgelodd ystadegau diweddaraf y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid fod gan **71%** o blant a ddedfrydwyd yn y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr (Ebrill 19 - Mawrth 20) anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.[8] Mae hyn yn cymharu ag amcangyfrif o **10%** ar gyfer plant a phobl ifanc yn gyffredinol.[9] Gall y goblygiadau i berson ifanc sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu o fewn y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid fod yn ddwys os na chaiff yr anghenion eu nodi a'u cefnogi.

Er gwaethaf argymhelliad gan Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd yn 2023 yn yr adroddiad '60% Rhoi llais iddynt'[10] oedd yn nodi; 'Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer lleoli therapyddion iaith a lleferydd ym mhob Tîm Troseddau Ieuenctid yng Nghymru', ychydig iawn o gynnydd sydd wedi bod ar y mater hwn.



50%

**Dim ond hanner y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru sydd â therapyddion Lleferydd ac Iaith wedi'u lleoli mewn timau.**

Dim ond **hanner** y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru sydd â therapyddion Lleferydd ac Iaith wedi'u lleoli mewn timau ac mae cyllid tymor byr gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghlwm wrth lawer o'r swyddi. **Nid oes unrhyw therapyddion Lleferydd ac Iaith wedi'u lleoli mewn gwasanaethau yng nghanolbarth a gogledd Cymru.**

**Mae RCSLT Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i gydweithio â Llywodraeth y DU i sicrhau bod therapyddion Lleferydd ac Iaith wedi'u lleoli ym mhob Tîm Troseddau Ieuenctid ledled Cymru.**

*[7] RCSLT Wales (2025). Adroddiad Cyflwr y Genedl – y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru. www.rcslt.org/wp-content/uploads/2025/01/RCSLT-Wales-State-of-the-Nation-report_Welsh-version-January-2025.pdf.*
*[8] Llywodraeth y DU (2020). Assessing the needs of sentenced children in the Youth Justice System. www.gov.uk/government/statistics/assessing-the-needs-of-sentencedchildren-in-the-youth-justice-system.*
*[9] Hartshorne, M (2006). The Cost to the Nation of Children's Poor Communication. Cyfres Siarad ICAN Rhif 2. Llundain: ICAN.*
*[10] Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd (2023). 60% Rhoi llais iddyn nhw - anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid. https://senedd.wales/media/0zznsck2/cr-ld15786-w.pdf.*

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y briff hwn, cysylltwch â **caroline.walters@rcslt.org**